# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-09-10-p3: 13 Mai 2010

## Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Llywodraeth i Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP)

### Diben

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn croesawu ymchwiliad y pwyllgor i:

"Ba un a yw'r Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) yn perfformio'n effeithiol ac yn gyson ledled Cymru o ran cryfhau'r trefniadau ar gyfer gwarchod a hybu lles plant" a'r cyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar.

### Cefndir

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Gymuned a Safonau) 2003 yn rhoi grymoedd i adolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Mae Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn rhoi grymoedd i gofrestru ac arolygu sefydliadau ac asiantaethau yng Nghymru sy'n darparu gofal cymdeithasol.

Rydym yn rheoleiddio gofal cymdeithasol a gwasanaethau blynyddoedd cynnar gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rheoliadau yn galluogi AGGCC i reoleiddio gweithrediad sefydliadau ac asiantaethau yng Nghymru.

### Arolygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y Partneriaethau :- Sail Statudol

Mae Adran 30 o Ddeddf Plant 2004 yn nodi'r trefniadau ar gyfer arolygu swyddogaethau dan ran 3 o'r Ddeddf. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw'r arolygiaeth sy'n arwain y gwaith hwn. Mae'n gweithio'n agos gyda chyrff rheoleiddio eraill gan gynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi, i sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cydgysylltu'n effeithiol,  i ddatblygu protocolau ac i gynllunio gwaith i arolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y Partneriaethau.

### Cefndir

Yn dilyn yr amgylchiadau o gwmpas marwolaeth y baban Peter Connelly yn Haringey a ddaeth i sylw'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2008, cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r camau canlynol:

(i) Ysgrifennodd at bob asiantaeth allweddol er mwyn gofyn am sicrwydd eu bod yn deall eu hatebolrwydd ynglŷn â diogelu plant yn eglur. Gofynnodd iddynt hefyd asesu effeithiolrwydd y trefniadau lleol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Roedd yn ofynnol i bob asiantaeth gyflwyno ei chanfyddiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 2 Chwefror 2009.

(ii) Gofynnwyd i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu effeithiolrwydd y trefniadau diogelu gan gyfeirio at fframwaith statudol cyfredol i ddiogelu ac amddiffyn plant ac ystyried i ba raddau y cydymffurfir ag argymhellion ymchwiliad Victoria Climbié.

(iii) Gofynnwyd i gadeiryddion y BLlDP gydgysylltu ymateb ar y cyd gan yr asiantaethau ynglŷn ag effeithiolrwydd y bwrdd, ar sail trafodaethau gyda'r holl bartneriaid statudol sy'n rhan o'r BLlDP. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr sy'n Arwain Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc gadarnhau bod sefydliadau partner yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gefnogi'r awdurdod lleol a'r BLlDP wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.

Anfonwyd yr adroddiadau asesu wedi eu cwblhau at y Cynulliad ac yna fe'u hanfonwyd ymlaen at AGGCC ym mis Chwefror 2009 er mwyn cynnal gwerthusiad o'r hunanasesiadau a chynnal ymweliad gwirio â phob awdurdod lleol a BLlDP.

Cyhoeddodd AGGCC ddau adroddiad ar 20 Hydref 2009, ei hadroddiad cyffredinol  Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru, adolygiad o'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant a Gwella Ymarfer ar gyfer Amddiffyn Plant yng Nghymru: Golwg ar rôl yr Adolygiadau Achosion Difrifol

Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei hadroddiad Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu ar draws Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru ar yr adeg hon hefyd.

### Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru, adolygiad o Awdurdodau Lleol a Byrddau Lleol Diogelu Plant

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn: http://cymru.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/ourfindings/allwales/2009/3509433/?lang=cy

Gellir crynhoi canfyddiadau'r adroddiad ynglŷn â'r Byrddau Lleol Diogelu Plant fel a ganlyn.

## Yr Hunan Archwiliadau

Yn gyffredinol, canfu'r arolygwyr bod hunan archwiliadau'r byrddau lleol diogelu plant yn gywir ac yn dod i gasgliadau rhesymol ar sail y dystiolaeth.

## Byrddau Lleol Diogelu Plant

Cadarnhaodd yr adolygiad bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant newydd wedi eu sefydlu a bod ganddynt sail statudol eglurach ar gyfer darparu eu cynlluniau lleol.

Fodd bynnag, canfu bod y byrddau ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wrthi o hyd yn gosod strwythurau eglur ar gyfer llywodraethu a chydgysylltu.

Roedd gan rai byrddau gofnod o bresenoldeb eglur a rheolaidd gan yr holl bartneriaid ac roeddynt yn gwneud gwaith da wrth gydgysylltu gwasanaethau a sicrhau ansawdd drwy gyfrwng hyfforddiant a systemau rheoli perfformiad ar y cyd.

Roedd aelodaeth a phresenoldeb byrddau eraill yn amrywio, a hynny'n aml yn yr un byrddau lle y gwelid ansicrwydd ynglŷn â threfniadau busnes y bwrdd.

Roedd bron pob un o'r byrddau yn ei chael yn anodd cyflawni ei swyddogaeth gyda'r adnoddau a oedd ar gael.

Y gwasanaethau cymdeithasol, neu'n fwy penodol, gwasanaethau cymdeithasol plant, oedd yn tueddu i fod yn gyfrifol am arwain y BLlDP. Roedd penaethiaid y gwasanaethau plant yn arwain bron i hanner y byrddau a'r gweddill yn cael eu harwain gan gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol neu'r cyfarwyddwr sy'n arwain y gwasanaethau i blant. Roedd y dirprwy gadeiryddion yn dod o ystod ehangach o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau iechyd a gwirfoddol.

Roedd y rhan fwyaf o'r BLlDP yn dibynnu'n helaeth ar nawdd byr dymor neu ar adnoddau'r gwasanaethau cymdeithasol, yn aml gan y gwasanaethau cymdeithasol i blant. Roedd nifer fach o'r BLlDP wedi derbyn nawdd yn ddiweddar drwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Nid oedd y GIG a'r heddlu wedi canfod fformiwla effeithiol ar gyfer ariannu neu gefnogi BLlDP unigol yn eu hardaloedd rhanbarthol.

Roedd rhai ardaloedd wedi penderfynu creu BLlDP ar y cyd rhwng dau awdurdod. Roedd gan rai eraill is-grwpiau ar y cyd ar gyfer sicrwydd ansawdd neu hyfforddiant. Roedd nifer fach ohonynt wedi penodi rheolwr busnes yn ddiweddar neu'n bwriadu gwneud hynny, gyda pheth cefnogaeth weinyddol ychwanegol.

Nid oedd ymarferwyr rheng flaen a rheolwyr tîm yn aml yn ymwybodol o swyddogaeth y BLlDP o ran cydgysylltu polisi ac arferion gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd ddull gwaith amlasiantaeth y cytunwyd arno ym maes hyfforddiant amddiffyn plant. Nod rhai byrddau oedd creu un cynllun hyfforddi ar gyfer yr holl asiantaethau yn yr ardal. Nid oedd hyfforddiant uwch mewn cynnal ymchwiliadau ar y cyd neu achosion llys yn cael ei ddarparu mewn modd systematig yn gyffredinol. Nid oedd llawer o gyfle i ddilyn hyfforddiant mewn ymchwiliadau ar y cyd yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn nodi eu bod yn ei chael yn anodd dilyn hyfforddiant a rheoli baich achosion uchel ar yr un pryd.

Ar y pryd, ychydig iawn o fyrddau diogelu a oedd wedi ehangu eu cylch gwaith y tu hwnt i amddiffyn plant. Mae'r rhan fwyaf yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion y plant hynny sydd angen ymyriad wedi ei gydgysylltu er mwyn eu galluogi i brofi plentyndod diogel rhag niwed, ond mewn rhai ardaloedd roedd hyn wedi ei ledaenu i gynnwys y grŵp o blant sydd ar ffiniau'r meini prawf hyn.

Mater a oedd yn peri pryder penodol oedd mai ychydig iawn o Fyrddau Lleol Diogelu Plant, hyd yn oed o fewn y diffiniad cul hwn o ddiogelu, a oedd wedi gosod mesurau amlasiantaeth effeithiol iddynt eu hunain ar gyfer eu gweithgaredd.

Canfu'r adolygiad nad oes perthynas eglur rhwng maint y BLlDP a'i effeithiolrwydd. Nid oes perthynas eglur ychwaith rhwng effeithiolrwydd y BLlDP ac ansawdd yr arferion gwaith a'r gwasanaethau o ran diogelu ac amddiffyn plant.

Pan fo arweinyddiaeth eglur ac ymroddiad gan bob ochr, gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod hyn yn effeithio ar effeithiolrwydd y BLlDP. Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn dibynnu ar unigolion penodol, yn hytrach na bod yn rhywbeth sydd wedi ei ymsefydlu'n dda mewn sefydliadau.

Roedd BLlDP a oedd wedi penodi rheolwr busnes neu gydgysylltydd pwrpasol wedi creu gallu ac felly roeddynt yn gweithredu'n fwy effeithiol yn gyffredinol.

Nid oedd gan y rhan fwyaf o BLlDP unrhyw fodd o werthuso sut yr oedd gwaith y bwrdd yn gwella canlyniadau i blant.

Ychydig o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o sut i gyflawni eu cyfrifoldebau orau ac yn fwyaf effeithiol drwy weithio gyda'i gilydd.

Mae angen i'r Byrddau ddatblygu a sefydlu dealltwriaeth gyffredin a diffiniad gwell o ddiogelu y mae'r holl bartneriaethau strategol yn cytuno arnynt.

Mae pob ardal wedi paratoi Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc bellach ond rhaid aros i weld pa mor effeithiol yw'r rhain wrth gynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau ehangach o ran atal a diogelu.

Mae angen i BLlDP ddatblygu hunaniaeth gryfach os ydynt am herio sefydliadau yn effeithiol fel bo'r angen o ran ansawdd gweithgaredd diogelu lleol.

Rhaid i BLlDP gymryd yr awenau yn fwy, o ran herio arferion amlasiantaeth ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant a nodi meysydd i'w gwella, yn enwedig, er enghraifft, ynglŷn ag ansawdd ac effeithiolrwydd prosesau cynllunio ac adolygu amddiffyn plant.

**BLlDP ac Adolygiadau Achos Difrifol**

Un o swyddogaethau'r byrddau lleol diogelu plant yw :-

Dan adran 32(2) o Ddeddf Plant 2004, bydd gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant y swyddogaethau hynny y gall y Cynulliad eu pennu drwy reoliadau, a allai yn benodol gynnwys swyddogaethau adolygu ac ymchwilio.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd tystiolaeth gynyddol nad yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer cynnal adolygiadau achos difrifol yn gweithio fel y'u bwriedir, ac mae gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r un peth. Cynhelir niferoedd cynyddol o adolygiadau achos difrifol, ac o ystyried y cefndir hwn ychydig o dystiolaeth eglur a welwyd bod y gwersi a ddysgwyd o'r rhain yn arwain at well gwaith rhyngasiantaeth a gwell arferion amddiffyn plant.

### Gwella Ymarfer ar gyfer Amddiffyn Plant yng Nghymru: Golwg ar rôl Adolygiadau Achosion Difrifol

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn: http://cymru.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/ourfindings/allwales/2009/sercase/?lang=cy

### Crynodeb

Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad canlynol:

"Does dim anghytuno ynglŷn â'r angen am ryw fath o ymchwiliad neu adolygiad i edrych ar y modd y mae asiantaethau lleol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ac edrych ar effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol yn achos marwolaeth plentyn neu lle cafodd plentyn ei niweidio oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod. Mae hyn yn unol ag amcanion y BLlDPau a amlinellir yn Neddf Plant 2004 a gall gyfrannu at gyflawni dyletswyddau o dan Erthyglau 2 a 3 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Er hynny, mae angen sefydlu fframwaith BLlDP mwy cydlynol a chynhwysfawr ar gyfer adolygu, dysgu a gwella ymarfer diogelu nad yw'n dibynnu'n gyfan gwbl ar adolygiadau achosion difrifol i sicrhau newid mewn polisi ac ymarfer. Mae'n galw am gontinwwm dysgu, yn seiliedig ar egwyddorion clir, didwylledd, her a chymorth proffesiynol, atebolrwydd, rhannu ymrwymiad i wella ymarfer a chymryd camau amserol i sicrhau newid:

Y sylfaen fyddai fforymau proffesiynol amlasiantaeth ar gyfer dysgu o arfer da ac achosion sy'n peri pryder, yn cyfarfod yn rheolaidd a darparu cymorth, her a datblygiad proffesiynol;

Adolygiadau cryno ar gyfer achosion sy'n achosi lefel uchel o bryder proffesiynol neu achosion 'fu bron â digwydd', i'w cynnal o fewn un mis, ac yn destun archwiliad cyfnodol, gan adrodd arnynt yn adroddiad blynyddol y BLlDP;

Adolygiadau cynhwysfawr mewn achosion lle bu farw plentyn o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod, i'w cynnal o fewn tri mis ar sail adroddiadau asiantaeth unigol ac adroddiad gorolwg a gyflwynir i gorff cenedlaethol;

Adolygiadau annibynnol mewn achosion â lefel uchel o sensitifrwydd, difrifoldeb, cymhlethdod neu ddiddordeb cyhoeddus, i'w cynnal o fewn pedwar mis gan arbenigwr, unigolyn neu grŵp allanol i'w cynnull gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda phwyslais ar ddysgu'r gwersi".

Cydnabyddir y byddai'n rhaid gwneud gwaith paratoi mwy manwl, ymgynghori, treialu a llunio rhaglen weithredu er mwyn symud ymlaen â dull gwaith o'r fath, ac y byddai angen adolygu'r rheoliadau a'r canllawiau cyfredol. Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei ddatblygu gan gydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae gan AGGCC gynrychiolydd ar y grŵp cynghori.

### Arolygu BLlDP yn y Dyfodol

Cyn yr achos yn Haringey a'r adolygiad dilynol yn 2009, roedd AGGCC eisoes wedi bod yn gwneud gwaith gyda'r arolygiaethau eraill er mwyn datblygu Fframwaith Arolygu Amlasiantaeth ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant.

Roedd cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng yr arolygiaethau ers cyflwyno'r BLlDP yn cydnabod bod diogelu a hybu lles plant yn swyddogaethau craidd ar gyfer pob asiantaeth statudol. Mae gan yr holl asiantaethau statudol ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu na ellir eu bodloni ond drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

Cytunwyd felly y byddai angen i'r holl arolygiaethau ymdrin â'r maes hwn fel rhan o unrhyw raglen waith.

Prosiect sylweddol i'w weithredu fyddai datblygu fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer BLlDP a diogelu ar draws Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Byddai angen i fframwaith o'r fath sefydlu dull cyson a chydlynol o werthuso effeithiolrwydd y BLlDP amlasiantaeth ac o hybu gwelliant yn ei waith, ar draws yr arolygiaethau perthnasol.

Byddai fframwaith o'r fath yn atgyfnerthu'r angen am waith partneriaeth gwell a chryfhau'r flaenoriaeth y mae'n rhaid i'r holl asiantaethau perthnasol ei rhoi i gyflawni'r agenda ddiogelu.

Mae'r ymagwedd hon yn rhoi cyfle i arolygiaethau gryfhau ymhellach fframwaith arolygu amlasiantaeth sydd:

Wedi ei dargedu ac sy'n gymesur

Yn cynllunio gweithgareddau yn unol â'r lefel risg berthnasol

Yn adeiladu ar asesiad yr awdurdodau o'u perfformiad eu hunain

Yn annog sefydliadau i ddysgu o arfer gorau

Y bwriad felly oedd datblygu rhaglen ar gyfer yr arolygiaethau er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y BLlDP, yn 2010, gan ddefnyddio pecyn hunan archwilio a datblygu amlasiantaeth.

### Sail Statudol :- prosiect diogelu arolygiaethau ar y cyd (gweler atodiad 1)

### Arolygiad

Mae Adran 30 o Ddeddf Plant 2004 yn nodi'r trefniadau ar gyfer arolygu swyddogaethau dan ran 3 o'r Ddeddf. AGGCC yw'r arolygiaeth sy'n arwain y gwaith hwn. Mae'n gweithio'n agos gydag arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill gan gynnwys Estyn, AGIC, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, i sicrhau bod arolygiadau'n cael eu cydgysylltu'n effeithiol, i ddatblygu protocolau ac i gynllunio gwaith i arolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y Partneriaethau.

### Byrddau Lleol Diogelu Plant

Mae adran 31(1) o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer ei ardal, a fydd yn cydgysylltu'r hyn y bydd ei aelodau'n ei wneud i ddiogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod sy'n ei sefydlu.

Cyflwynwyd BLlDP ym mis Hydref 2006 yn dilyn rheoliadau ac fe'u cefnogir gan ganllawiau statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru "Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"

Nod y BLlDP yw hybu safonau uchel o ran gwaith diogelu, a meithrin diwylliant o welliant parhaus. Bydd hefyd yn canfod diffygion ac yn cymryd camau ynglŷn â'r diffygion a ganfuwyd mewn gwasanaethau.

Er mwyn cyflawni ei swyddogaeth statudol yn effeithiol rhaid i BLlDP allu:

Llunio safbwynt ynglŷn ag ansawdd y gweithgaredd lleol

Herio sefydliadau fel bo'r angen

Siarad gyda llais annibynnol.

Rhoi barn i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar faterion sy'n effeithio ar y modd y bydd plant yn cael eu diogelu a'r modd yr hybir eu lles.

Bod yn ymgynghorai ffurfiol yn ystod datblygiad y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

### Un arall o swyddogaethau'r BLlDP yw:

Datblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad yr awdurdod gwasanaethau plant o'i gymharu â'r cynllun a baratowyd dan adran 26 o Ddeddf 2004 (cynlluniau plant a phobl ifanc), i'r graddau y mae'r cynllun yn berthnasol i ddiogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod.

### Datblygu pecyn hunan archwilio a gwella

I hybu fframwaith cyffredin ar draws yr arolygiaethau, cytunwyd mai'r camau cyntaf fyddai datblygu pecyn hunan archwilio a gwella (SAIT). Gwnaethpwyd hyn rhwng 2008 a 2009.

### Nodau

Datblygu pecyn hunan archwilio ar sail tystiolaeth ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) yng Nghymru fydd yn cyfrannu at y gwaith diogelu ar draws y partneriaethau ac yn darparu sail ar gyfer fframwaith arolygu amlasiantaeth.

Comisiynodd AGGCC ymchwilwyr i ddatblygu pecyn hunan archwilio a gwella. Dyfarnwyd y contract ar gyfer datblygu SAIT i'r Athro Jan Horwath, a Mr Tony Morrison. Eu swyddogaeth oedd datblygu, gwerthuso a mireinio dull gwaith a phenderfynu ar ddisgrifiadau meincnodi ar sail tystiolaeth. Ystyriwyd bod y disgrifiadau meincnodi hyn yn elfen arwyddocaol gan eu bod yn darparu sail fwy cadarn i'r BLlDP a Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso effeithiolrwydd a gwelliant.

Cynlluniwyd y pecyn i roi i'r BLlDP fodd o:

Werthuso ei heffeithiolrwydd ei hun

Hybu diffiniad cyson o ddiogelu a'r agenda ddiogelu

Cynorthwyo asiantaethau i weithio ar y cyd yn well ac i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ar draws yr asiantaethau

Mae'r pecyn archwilio a gwella yn casglu gwybodaeth gritigol a rhoi cipolwg unigryw ar weithrediad y BLlDP, gan gynnwys:

arddulliau arwain

natur y cydweithio strategol

dehongli a blaenoriaethu ei gyfrifoldebau

meincnodau ar gyfer gwerthuso perfformiad y BLlDP

gwybodaeth a fydd yn hysbysu polisïau diogelu yn y dyfodol

gwybodaeth i alluogi'r BLlDP i ystyried eu gweithrediad a nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella, gyda'i seiliau mewn gwaith partneriaeth.

Yn bwysig fodd bynnag, roedd y SAIT wedi ei gynllunio hefyd fell pecyn datblygu i gynorthwyo BLlDP yn eu prosesau cynllunio a datblygu busnes.

## Datblygu'r Pecyn Hunanasesu a Gwella

### Pum Dimensiwn

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth ymchwil a'r llenyddiaeth, mae pum 'dimensiwn' neu faes ar gyfer gweithgarwch a datblygiad sy'n hollbwysig os yw'r BLlDP yn mynd i weithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau diogelu i blant, sef:

1. Sefydlu cyfeiriad strategol y Bwrdd
2. Sefydlu llywodraethu effeithiol
3. Meithrin gallu
4. Darparu allbynnau
5. Gwella canlyniadau diogelu i blant

Y rhain yw'r blociau adeiladu ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol. Er enghraifft, heb gyfeiriad strategol eglur, nid yw'r Bwrdd yn gallu datblygu trefniadau llywodraethu effeithiol.

### Safonau

Mae bob un o'r pum dimensiwn wedi ei rannu ymhellach yn gyfanswm o 21 'safon'. Dyma'r elfennau critigol y canfuwyd eu bod yn arwyddocaol o ran sicrhau bod partneriaethau strategol amlddisgyblaethol yn gweithio tuag at ddiogelu plant.

### Bandiau

Cyflwynir pob safon gyda phedwar 'band'. Mae pob band yn disgrifio ystod o weithgaredd ac maent yn feini prawf meincnodi sy'n galluogi aelodau'r BLlDP i sefydlu cryfderau a meysydd i'w datblygu. Hefyd, bydd y Bwrdd yn gallu monitro ei ddatblygiad wrth ddefnyddio'r SAIT bob blwyddyn.

Cafodd y dull ei dreialu gan 7 awdurdod lleol a datblygwyd y disgrifiadau meincnodi ar gyfer ystod o safonau .Nodwyd y rhain drwy ddadansoddi tystiolaeth a ddarparwyd gan y safleoedd treialu a chwblhaodd pob un y SAIT yn ystod sesiwn ddatblygu a drefnwyd yn allanol.

Mireiniwyd y pecyn wedi hynny ac yn dilyn yr achos yn Haringey fe'i haddaswyd i gryfhau'r cwestiwn canolog "a yw'r BLlDP yn gwybod am arferion gwaith".

Mae gweithgareddau ychwanegol wedi eu cynnwys yn y bandiau a'r safonau gwahanol gan alluogi aelodau'r BLlDP i ystyried:

A oes gennym ddealltwriaeth gyffredin ynglŷn â beth yw 'arfer da'?

A ydym yn gwybod beth sy'n digwydd yn ymarferol?

A ydym yn gallu ymdrin â phryderon ynglŷn ag arferion gwaith?

A ydym yn gwybod sut i nodi a lledaenu arferion gorau?

Hefyd, mae mwy o bwyslais wedi ei roi ar drefniadau llywodraethu, megis swyddogaeth y cadeirydd ac aelodau'r BLlDP, o ran casglu gwybodaeth am arfer amddiffyn plant amlddisgyblaeth yn yr ardal a chyfraniad pob asiantaeth sy'n aelod a'i gallu i ymdrin ag unrhyw bryderon.

Mae AGGCC wedi cymeradwyo'r pecyn ac fe'i lansiwyd mewn cynhadledd genedlaethol ym mis Mai 2009.

Bydd sawl arolygiaeth yn cynnal arolygiad ar y cyd o'r BLlDP yn ystod 2010-2011. Mae'r arolygiaethau yn gweithio i ddatblygu methodoleg ar gyfer yr arolygiad hwn ar hyn o bryd, ond cytunwyd y byddai'r SAIT yn darparu un llinyn o wybodaeth graidd. Bydd

adroddiad cyffredinol yn cael ei gyhoeddi wedi diwedd y gwaith hwn yn ystod 2011.

### Adolygiad Aml-arolygiaeth

### Cwmpas

Asesu, ar sail aml-arolygiaeth, y gwaith y mae awdurdodau wedi ei wneud i sefydlu bwrdd lleol diogelu plant yn unol â chanllawiau "Diogelu Plant" Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.

Rhoddir pwyslais penodol ar:

Sut y mae'r BLlDP yn dangos bod canlyniadau wedi gwella i blant sy'n derbyn gwasanaethau amddiffyn plant.

Sut y mae gwaith y BLlDP a gwaith gyda phartneriaethau eraill yn gwella diogelwch ar gyfer yr holl blant.

A yw'r bwrdd wedi sefydlu cyfeiriad strategol gan gynnwys dealltwriaeth eglur a chyffredin ynglŷn â pha elfennau o ddiogelu y mae'n atebol amdanynt a pha rai y mae'n disgwyl i eraill fod yn gyfrifol amdanynt.

A yw'r bwrdd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol sy'n rhoi manylion am gyfrifoldebau, gofynion ac atebolrwydd aelodau unigol gan hefyd sicrhau bod asiantaethau eraill sy'n aelodau o'r bartneriaeth yn gyfrifol am weithgaredd diogelu.

A yw'r bwrdd wedi sefydlu'r gallu i gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau gan gynnwys nodi'r adnoddau gofynnol er mwyn darparu ei raglen a'r is-grwpiau sydd eu hangen er mwyn darparu ei gynllun gwaith yn effeithiol.

A oes gan y bwrdd allbynnau eglur, yn yr ystyr ei fod wedi datblygu modd o wybod am ansawdd yr arferion gwaith ac yn cymryd camau pendant i hybu gwelliannau gan gynnwys:

Dealltwriaeth gyffredin o beth yw 'arfer da'

Dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol

Y gallu i ymdrin â phryderon ynglŷn ag arferion gwaith

Mae gan y bwrdd ddulliau o nodi a lledaenu arfer gorau

Mae gwaith y bwrdd yn cael ei hysbysu gan randdeiliaid gan gynnwys plant a phobl ifanc

Nodi arfer da ychwanegol

Gwneud argymhellion er mwyn gwella ymhellach